**P-06-1454 Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i dadau newydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Williams ôl casglu 295 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
I dadau â phroblemau iechyd meddwl, ystyrir bod y risg o hunanladdiad hyd at 47 y cant yn uwch yn ystod y cyfnod amenedigol nag ar unrhyw adeg arall yn eu bywydau (Quevedo et al., 2010).

Mae ymchwil newydd hefyd yn dangos mai 22 y cant yw'r risg o gael gorbryder ac iselder i dad newydd yn ystod y cyfnod amenedigol. Mae trawma geni yn effeithio ar o leiaf 30,000 o fenywod yn y DU; mae tadau'n dyst i'r trawma hwn ac nid ydynt yn cael cymorth ar gyfer PTSD. Mae tadau hefyd yn colli babanod, ac mae angen iddynt gefnogi eu babanod ar wardiau newyddenedigol.

Rydym am i Lywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth i gefnogi tadau mewn timau iechyd meddwl amenedigol ledled Cymru. Rydym hefyd am i dadau gael cymorth ariannol am hyd at chwe wythnos.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rwy'n rhan o adroddiad sydd ar y gweill, gyda Theo Clarke AS, ar dadau a thrawma geni. Edrychwch ar 'Fathers Reaching Out - Why Dads Matter' a gyhoeddwyd yn 2020 gyda'r holl argymhellion i gefnogi tadau yn well. Drwy gefnogi iechyd meddwl pob rhiant newydd, gellir sicrhau canlyniadau llawer gwell i'r teulu cyfan, gan gynnwys y babi. Os nad ydym yn cynnwys tadau, mae posibilrwydd y bydd effaith ar famau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cam-drin Sylweddau, Torri Perthynas, Argyfwng mewn gwasanaethau eraill a pheidio â mynd i wraidd yr achos. Un o achosion mwyaf marwolaeth dynion yw hunanladdiad ac oherwydd y risg uchel ymhlith tadau newydd, mae hyn yn fater brys. Iechyd Meddwl Tadau yw un o brif

achosion hunanladdiad, ond nid ydym yn sgrinio nac yn cefnogi tadau yn 2024.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru